**Rhif: WG47474**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Adolygu'r Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen

Dyddiad cyhoeddi: 23 Hydref 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023

## Trosolwg

Rydym yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen.

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno’ch sylwadau erbyn 15 Ionawr 2024, gan ddefnyddio unrhyw un o’r dulliau canlynol:

- e-bost
- drwy'r post
- ffurflen ar-lein

## Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

E-bost: plant.health@llyw.cymru

Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document also available in English: https://www.gov.wales/code-practice-control-ragwort

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgyngoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau)
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

Y cefndir ........ 5
Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn? ........ 5
Y camau nesaf ........ 5
Cynnig ........ 5
Sut i ymateb ........ 6

## Y cefndir

1. Nod y Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen (“y Cod”) yw rhwystro a rheoli ymlediad Llysiau'r Gingroen dim ond pan fo'n fygythiad i iechyd a lles anifeiliaid sy'n pori, yn enwedig ceffylau a gwartheg sy'n dueddol iawn o gael eu gwenwyno gan lysiau'r gingroen. Nid cael gwared ar lysiau’r gingroen yw nod y canllawiau hyn, gan ei fod yn blanhigyn cynhenid sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth. Felly, mae'n ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng anghenion perchnogion tir a meddianwyr sy'n pori ac yn bwydo eu da byw, a'r angen i amddiffyn bioamrywiaeth.

2. Cyhoeddwyd y Cod yn 2011. Felly, rydym am ddiweddaru'r ddogfen. Rydym wedi awgrymu newidiadau ac wedi cysylltu â Grŵp Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru er mwyn cael eu mewnbwn cychwynnol.

3. Cyn cyhoeddi, adolygu neu ddisodli'r Cod, yn ôl y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, a gosod Cod Llysiau'r Gingroen gerbron y Senedd.

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

4. Rydym yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen. Cyhoeddwyd y Cod presennol yn 2011. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau sy'n diweddaru'r Cod. Mae'r diwygiadau'n cynnwys diweddaru enwau sefydliadau a chysylltiadau perthnasol, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol pan fo deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno ers 2011 a newidiadau sy'n ymwneud â chyngor ynghylch mesurau arferion gorau.

## Y camau nesaf

5. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion wrth gwblhau fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod. Unwaith y bydd yr holl ymatebion wedi'u hystyried, bydd Ymateb y Llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Cynnig

6. Darperir fersiwn o'r Cod Ymarfer gyda thestun newydd a ddangosir mewn ffont coch a darnau wedi'u dileu a ddangosir mewn testun coch gyda llinell drwodd ~~(a welir fel hyn).~~

## Sut i ymateb

7. Dylech gyflwyno’ch sylwadau erbyn 15 Ionawr 2024, gan ddefnyddio unrhyw un o’r dulliau canlynol:

- e-bost
- drwy'r post
- ffurflen ar-lein